# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Mai 2012
# Answers to the Written Assembly Questions for answer on 15 May 2012

*Cyhoeddir atebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o atebion yn y Gymraeg. Answers are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant/signifies that the Member has declared an interest.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg/signifies that the question was tabled in Welsh.*

**Cynnwys**
**Contents**


2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

***Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau***
***To ask the Minister for Education and Skills***

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglyn â'r arholiad Safon Uwch Bioleg sy'n cael ei reoli gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru. (WAQ60262) W

**Simon Thomas (Mid and West Wales):** Will the Minister make a statement on the A-level Biology exam that is managed by the Welsh Joint Education Committee. (WAQ60262) W

***Derbyniwyd ateb i'w gyhoeddi ar 14 Mai 2012***
***Answer received for publication on 14 May 2012***

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Ar 1 Mai, cyhoeddodd Ofqual gyfres o adroddiadau am safonau mewn amryfal gymwysterau TGAU a Safon Uwch. Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin â saith pwnc ar draws pum sefydliad dyfarnu ac maent yn rhan o'r gwaith rheoleiddio cyson a wneir gan y corff hwnnw. Mae'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiadau hyn yn helpu i lywio datblygiadau yn y dyfodol. At ei gilydd, mae'r adroddiadau'n rhoi darlun cytbwys, ac mae CBAC, yn yr un modd â sefydliadau dyfarnu eraill, yn cael canmoliaeth a rhai sylwadau mwy beirniadol.

Cafodd y gwaith a wnaed gan ymgeiswyr yn ystod dwy flynedd wahanol ei adolygu ar draws y sefydliadau dyfarnu dan sylw. Yn achos Bioleg Safon Uwch, adolygwyd gwaith a wnaed yn ystod 2003 ac yn ystod 2008.

Yn ôl canfyddiadau'r adolygiad, roedd rhai o'r cwestiynau ar bapurau CBAC yn 2008 yn fyrrach ac yn fwy strwythuredig nag yn 2003, ac roedd hynny'n golygu nad oedd y cwestiynau hynny'n gofyn cymaint oddi wrth yr ymgeiswyr. Er hynny, ar y cyfan, gwelwyd bod lefel y gofynion yng nghymhwyster CBAC yn briodol ac, yn 2008, o'i chymharu â 2003, canfuwyd bod y gwaith a wnaed gan ymgeiswyr CBAC yn fwy tebyg i waith a wnaed gan ymgeiswyr sefydliadau dyfarnu eraill.

Dylid nodi hefyd fod manylebau newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer Bioleg Safon Uwch yn 2008, gan ddisodli'r rheini a gafodd eu hadolygu.

Llywodraeth Cymru sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru, ac yn rhinwedd y swyddogaeth honno, mae'n rhoi pwys mawr ar werth a chadernid cymwysterau. Byddwn yn parhau i fonitro safon yr holl gymwysterau a gynigir yng Nghymru ac i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau dyfarnu weithredu lle bo hynny'n briodol.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** On 1 May a series of reports on standards in various GCSEs and A levels was published by Ofqual. These reports cover a range of seven subjects across five awarding organisations and are part of regular regulatory work. Their findings help inform future development. Overall the reports paint a balanced picture with WJEC, like other awarding organisations, receiving both praise and some more critical comments.

Candidates' work from two different years was reviewed across awarding organisations. For A level Biology, the work was from the 2003 and 2008.

The review found that, in WJEC's 2008 question papers, some questions were shorter and more structured than in 2003, making these questions less demanding. However, the level of demand for WJEC's qualification, as a whole, was found to be appropriate and in 2008, compared with 2003, WJEC's candidates produced work that was more comparable to those of other awarding organisations.

It should also be noted that new A level Biology specifications were introduced in September 2008, replacing those that were reviewed.

As the regulators for qualifications in Wales, the Welsh Government places a high level of importance on the rigour and value of qualifications. We will continue to monitor the standards of all qualifications offered in Wales and to require awarding organisations to take action where appropriate.